

❖ NADOLIG DRWY LYGAID... Y GYMDOGES

Wyddoch chi beth sy'n boen beunyddiol yn y dre yma? Ar ein stryd ni beth bynnag. Pobl haerllug yn parcio'u camelod tu allan i'ch tŷ chi heb ganiatâd. Mae'r peth wedi mynd yn rhemp yma ym Methlehem. Pan oeddwn i'n blentyn roedd hon yn dre fach dawel neis. Roeddwn i'n nabod pawb yma a phawb yn fy nabod i. Roedd pawb mor gymdogol ac yn parchu ei gilydd.

Rwy'n beio'r hen fasnachu mawr yma sydd wedi gafael yn y lle bellach. Mae yna farchnad ddefaid yma byth a hefyd. Sut allwch chi obeithio cael cymdeithas barchus a chynifer o'r bugeiliaid comon yma o gwmpas y lle ym mhob man? Fe glywais i nhw y noson o'r blaen yn bloeddio rhyw hen ganu maswedd allan ar y meysydd 'na, ac yn dod i weiddi hyd y stryd yma wedyn yn y tywyllwch. Wn i ddim sut mae gobaith i unrhyw ffermwr ymddiried ei ddefaid i'r fath griw o anwariaid. Allwch chi ddim rhesymu gyda nhw. Petai angel o'r nef yn dod lawr i geisio rhoi rhywfaint o synnwyr yn eu pennau nhw, fyddai hwnnw druan ddim yn cael briwsionyn o lwyddiant.

Yna pan fydd yr ŵyl yn Jerwsalem, bydd yr hufen yn cael aros yn y tai crand yna yng nghyffiniau'r palas. A phwy meddech chi fydd yn cael eu gwthio i drefi cefn gwlad Jwdea fel Bethania a Bethlehem ond yr hen bethau Galilea 'na, sy'n honni bod ganddyn nhw hawl i'w galw'n ddinasyddion Israel. Dinasyddion uffern, debycach. Jwdea i'r Jwdeaid ddweda i. Dylai'r ddeddf gael ei newid i'w cadw nhw yn eu gwlad eu hunain.

Ond fe aeth pethau dros ben llestri gyda'r hen Gyfrifiad felltith yma. Rhyw orchymyn gwirion gan Awgwstws Cesar yn codi'r dreth ar bawb ohonom ni. Canlyniad y llanast yna oedd fod pob creadur gwirion oedd yn hawlio ei fod yn perthyn i'r Brenin Dafydd yn heidio yma o bob cyfeiriad. Mi glywais i eu bod nhw wedi eu gwasgu i mewn i bob twll a chornel mewn gwestai, a rhai dibriod medden nhw yn cysgu gyda'i gilydd mewn beudai. Roedd y cwbwl yn warthus.

Ond y peth gwirioneddol gywilyddus oedd y tri yna o gyfeiriad y Dwyrain a landiodd drws nesa fan hyn ganol nos. Dihuno Benjamin a minnau gyda'u gweiddi am ryw seren wedi sefyll. Glywoch chi'r fath ffwlberi erioed! Clindarddach eu hen gadwyni wedyn wrth ddatod eu portmantos. A chredech chi ddim, y tri ohonyn nhw yn mynd mewn i'r beudy! "Pa ddrygioni sy ar y gweill fanna?" gofynnodd Benjamin wedi codi i'r ffenestr. "Ddylwn i alw'r heddlu, dwed?" Ond yr arswyd fawr! Roedden nhw wedi clymu eu camelod yn union o flaen ein tŷ ni! Allwn i ddim â chredu fy llygaid. "Maen nhw yn yr union fan lle bydd Wncwl Josh yn gadael ei gamelod ar ddiwrnod mart," meddwn i, "ac mae'n ddiwrnod mart ddydd Gwener yma. Fe ddylet ti fod wedi paentio'r arwydd yna ar y ffordd ddoe: 'Parcio i drigolion a'u perthnasau yn unig'."

Dyna'r problemau mawr yr ydym ni ddinasyddion Dinas Dafydd yn gorfod eu dioddef. Rwy'n ofni bod Bethlehem wedi cyrraedd y gwaelod y dyddiau diwethaf yma. Ond yr unig beth y gallai Benjamin ei ddweud cyn ailddechrau chwyrnu ar ei obennydd oedd "Dere'n ôl i'r gwely, Haseleponi fach, does ond gobeithio y bydd pawb wedi anghofio popeth a ddigwyddodd yma erbyn y mis nesa."

John Gwilym Jones